



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambwr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 9FED MAI, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2019.

7 - 18

ARGYMHELLION I'W CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS: 17/0771

Amrywio amod 11 (Darluniau Cymeradwy) o gais cynllunio a gymeradwywyd yn flaenorol 13/0901/10 (Adeiladu a gweithredu fferm solar a seilwaith cysylltiedig), (Derbyniwyd yr adroddiad draenio a'r manylion diwygiedig ar 23/11/2018 a 21/01/2019), Fferm Penrhiw Cradoc, Ffordd Llanwynno, Aberpennar.

19 - 36

6. CAIS: 18/0927

2 dŷ 5 ystafell wely ar dir gwag y tu ôl i Penybryn House (Derbyniwyd y ffin goch ddiwygiedig ar 01/11/18) (Derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig ar 07/12/18) (Derbyniwyd yr Adroddiad Ecolegol ar 15/03/19) Penybryn House, Stryd Corner House, Llwydcoed, Aberdâr.

37 - 48

7. CAIS: 18/1124

Ffliw Echdynnu (Ôl-weithredol) (Derbyniwyd y manylebau ar 20/02/19) Burger Express, 46 Cemetery Road, Trecynon, Aberdâr.

49 - 54

8. CAIS: 18/1361

Amlinelliad o 4 annedd ar wahân gyda gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig o'r safle ar 18/02/19), Heol y Chwarel, Maesycoed, Pontypridd.

55 - 72

9. CAIS: 18/1400

Dymchwel yr adeiladau sy'n bodoli eisoes ac adeiladu 18 o gartrefi preswyl fforddiadwy a'r gwaith a'r trefniadau mynediad cysylltiedig (derbyniwyd y cynllun diwygiedig o'r safle ar 07/02/19), Eglwys Santes Ann, Church Terrace, Ynyshir, y Porth.

73 - 90

10. CAIS: 18/1421

Newid defnydd o stiwdio ddawns i weithdy ar gyfer gwerthu teiars a'u gosod, a chynnal, cadw a thrwsio ceir a faniau bach (Derbyniwyd y Ffin Goch Ddiwygiedig a'r Cynlluniau Diwygiedig ar 05/03/19) Uned 1c, Ystâd Ddiwydiannol Newtown, Llanilltud Faerdref, Pontypridd.

91 - 98

11. CAIS: 19/0039

Estyniad un llawr ar y llawr gwaelod ac estyniad i'r to yn y cefn. (Derbyniwyd canllawiau diwygiedig ar 28/03/19), 36 Stuart Street, Treorci.

99 - 104

12. CAIS: 19/0066

Cais amlinellol am dŷ 4 ystafell wely ar wahân. Tir yn 3 Clos Dan-yr-Allt, Rhydfelen, Pontypridd.

105 - 112

13. CAIS: 19/0071

Gosod cladin dur proffil a deunydd insiwleiddio acwstig a gwres dros y cladin sy'n bodoli eisoes ar waliau'r uned, a gosod 3 seilo ar ochr orllewinol yr uned, ac 1 seilo i'r de-ddywraïn o'r uned (ochr ddeheuol) (derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig ar 07/03/2019), hen safle Crabtree And Evelyn Overseas Ltd, Heol y Bont-faen, Tonysguboriau, Pont-y-clun.

113 - 126

14. CAIS: 19/0087

Canolfan adnoddau gymunedol gyda mynediad i'r cyhoedd, lle parcio, lle chwarae a chaffi, Hargreaves Surface Mining Ltd, Rhigos Road, y Rhigos, Hirwaun, Aberdâr.

127 - 140

15. CAIS: 19/0233

Amrywio Amod 5 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo) o'r cais cynllunio blaenorol 17/1218/10, Adeiladau'r YMCA, 27-28 Crossbrook Street, Pontypridd.

141 - 164

ARCHWILIADAU SAFLE

16. CAIS: 18/1376

Ailgodi Unedau Diwydiannol yn dilyn difrod tân, tir oddi ar Heol Pentre-bach, Pontypridd.

165 - 180

17. CAIS: 18/1385

Tynnu Garth House i lawr ac adeiladu 23 eiddo preswyl fforddiadwy a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig a'r disgrifiad 25/02/19), Garth House, Rhodfa Leon, Ffynnon Taf, Caerdydd.

181 - 204

18. CAIS: 18/1346

Datblygiad preswyl arfaethedig 120 uned, gyda gwaith tirlunio a pheirianeg cysylltiedig, hen safle Ysgol Gyfun Blaengwawr, Club Street, Aberaman, Aberdâr.

205 - 230

19. CAIS: 18/1411

Newid defnydd yr adeilad presennol i ddarparu 14 fflat, adeiladu tri thŷ ac un byngalo, a gwaith cysylltiedig gan gynnwys tirlunio, mynediad a pharcio ceir, hen safle Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, Stryd yr Ysgol, Llantrisant.

231 - 252

CAIS WEDI'I OHIRIO

20. CAIS: 18/0797

Ailddatblygu safle gwag ar gyfer 22 cartref yn ogystal â ffordd fynediad, manau parcio a thirlunio cysylltiedig (derbyniwyd y cynllun wedi'i ddiwygio 16/10/18), y tir rhwng Manchester Place a Langland Close, Hirwaun, CF44 9RP.

253 - 272

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

21. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 25/03/2019 - 26/04/2019.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd;
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau;
Trosolwg o Achosion Gorfodi; a
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

273 - 292

22. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd J Harries and Y Cynghorydd R Yeo

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol